Enw

DARLLENWCH
Exodus 17: 8-15

Mae'r stori hon yn sôn am:
Duw'n helpu'r rhai sy'n ymddiried Ynddo.

Stori 2 Duw'n rhoi buddugoliaeth

Un diwrnod, dechreuodd milwyr o'r enw'r Amaleciaid ymladd yn erbyn yr Israeliaid. Aeth Josua, cynorthwywr Moses, ati ar frys i gasglu byddin ynghyd. I ffwrdd â nhw i ymladd y gelyn. Cyn hir, dechreuodd brwydr fawr.

Pwy oedd yn gyfrifol am fyddin yr Israeliaid?

J __ __ __ a.

Cydiodd Moses yn ei ffon arbennig a dringodd i ben bryn cyfagos. Aeth Aaron a Hur gydag e. Pan godai Moses ei ffon, roedd yr Israeliaid yn ennill, ond pan roddai'r ffon i lawr, byddai'r Amaleciaid yn dechrau ennill!



Ymhen ychydig, dechreuodd breichiau Moses flino. Gosododd Aaron a Hur ef i eistedd ar garreg fawr. Yna, dyma nhw'n sefyll bob ochr iddo yn dal ei freichiau yn yr awyr.

Gwyddai Duw fod yr Israeliaid yn ymddiried Ynddo i'w cynorthwyo. Aeth y frwydr ymlaen drwy'r dydd, ond cyn iddi nosi, roedd y gelyn wedi'i drechu!

Gallwn ni, hefyd, ddibynnu ar Dduw i'n helpu, os ydym wir yn ymddiried Ynddo.

Lliwiwch y llun o Moses, Aaron a Hur a llanwch y bylchau gyda'r llythrennau cywir.

A __ r __ n a H __ r.